## Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ddyfodol y Polisi Rhanbarthol

---

### Y cyd-destun

Nododd ein Papur Gwyn *Diogelu Dyfodol Cymru* (Ion 2017) yr heriau eang i Gymru sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Rydym yn dadlau mai mynediad llawn a dirwystr parhaus at y Farchnad Sengl yw conglfaen ein llewyrch yn y dyfodol. Mae polisi deinamig ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol ledled Cymru yn gysylltiedig â hyn.

Ar hyn o bryd, mae Cymru yn elwa ar tua £680 miliwn y flwyddyn o fuddsoddiadau'r UE, gan gynnwys tua £370 miliwn y flwyddyn o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol. Mae'r cronfeydd hyn wedi helpu i wella economi a marchnad lafur Cymru yn sylweddol, cynyddu capasiti o ran gwaith ymchwil, a gwella'r seilwaith. Er gwaetha'r cynnydd pwysig hwn, mae rhannau o Gymru yn dal i wynebu heriau strwythurol. Mae ein cymunedau tlotach ar ei hôl o gymharu â rhanbarthau'r DU sy'n cyflawni'n well, a hynny mewn sawl ffordd; mae i'w weld ar ffurf cynhyrchiant is a lefelau sgiliau is, er enghraifft. Ni fydd yr heriau hirdymor hyn yn diflannu wrth i'r DU adael yr UE. Bydd arnom angen o hyd lefelau uchel o fuddsoddi ar sail angen economaidd, a rhaid manteisio ar y cyfle yn awr i ddatblygu polisi rhanbarthol cryf i baratoi ar gyfer trosglwyddo o'r UE. Rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i gyflawni ymrwymiadau a wnaed yn ystod y refferendwm na fyddai Cymru'n colli ceiniog o ganlyniad i adael yr UE.

Bu cyfeiriadau at greu 'cronfa ffyniant a rennir i'r DU' i gymryd lle'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Gwrthodwn unrhyw syniad o ganoli polisi datblygu economaidd rhanbarthol yn y DU. Byddai unrhyw ddull gweithredu o'r fath yn niweidio cymunedau'n sylweddol ac ni fyddai'n adlewyrchu bwriadau pleidleiswyr yn y refferendwm ar yr UE. Pleidleisiodd mwyafrif yng Nghymru o blaid gadael yr UE. Ni phleidleisiodd o blaid dod yn dlotach ac ni phleidleisiodd o blaid lleihau neu danseilio datganoli yng Nghymru. Bydd unrhyw ganlyniadau arfaethedig sy'n peri bod Cymru ar ei cholled yn ariannol, neu â llai o bwerau, yn annerbyniol.

Rwyf yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, y credaf ei fod yn gyfraniad pwysig ac adeiladol at gynorthwyo ein gwaith o saernïo dyfodol Cymru.

**Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:**

**Argymhelliad 1:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa gamau y bydd yn eu cymryd i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau posibl mewn arian cyfred yn y dyfodol

**Ymateb: Derbyn**

Mae dulliau'r cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd gwahanol o fonitro risgiau parhaus o ran cyfraddau cyfnewid yn amrywio oherwydd trefniadau a rheolau gwahanol y rhaglenni. Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sy'n rheoli'r risg ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol, a'r Gyfarwyddiaeth Amaeth, Bwyd a'r Môr sy'n rheoli'r risg ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig.

Mae WEFO a'r Gyfarwyddiaeth yn monitro cyfraddau cyfnewid yn fanwl drwy gydol cyfnod y rhaglen. Defnyddir cyfraddau cynllunio i gynllunio ar gyfer y dyfodol, a chaiff senarios eu hadolygu ar draws ystod o gyfraddau cyfnewid. Yn ôl y gyfradd gymeradwyo bresennol, mae digon o gronfeydd sydd ar ystod eang o gyfraddau cyfnewid posibl. O ran y Rhaglen Datblygu Gwledig, gall newidiadau i'r gyfradd gynllunio arwain at newid y rhaglen i adlewyrchu'r effaith gysylltiedig ar gydgyllido domestig.

Rydym yn gweithio gyda Thrysorlys EM i bennu'r rheolau ar gyfer trosglwyddo i gyllid y DU ar gyfer pob un o'n rhaglenni, a rhan allweddol o'r gwaith hwnnw fydd cytuno ar y modd y byddwn yn pennu gwerth Sterling unrhyw gyllid gan yr UE sydd wedi'i ymrwymo ond nas hawliwyd ar yr adeg pan fyddwn yn gadael yr UE. Bydd hyn yn cyfrannu at ganfod i ba raddau y dylem ystyried gor-raglennu (i ddarparu ar gyfer y posibilrwydd y bydd rhai prosiectau'n methu eu targedau).

Nes bod lefelau ymrwymo'n dechrau dod yn nes at tua 80% o werth amcangyfrifedig y rhaglen, risg fach sydd o or-ymrwymo. Pe bai gwerth yr Ewro'n gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf, risg gynllunio yw'r risg bennaf, sef y bydd angen i ymrwymiadau cyllid newydd arafu neu ddod i ben cyn diwedd cyfnod rhaglennu 2014–2020, gan siomi disgwyliadau mewn sawl maes.

Goblygiadau ariannol – Nid oes dim yn deillio'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad, er bod risgiau ariannol pwysig yn y maes hwn, fel yr amlinellwyd.

**Argymhelliad 2:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y bydd cau rhaglenni yn digwydd ar ôl gadael yr UE, a ph'un a fydd y rhaglenni hynny yn ddarostyngedig i gyfraith yr UE a'i bod yn codi'r cwestiynau hyn gyda chymheiriaid y DU i sicrhau yr ymdrinnir â'r rhain yn ddigonol fel rhan o unrhyw gytundeb i adael.

**Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

Bydd natur y broses o gau rhaglenni'n dibynnu ar gynnwys penodol y cytundeb tynnu'n ôl y bydd Llywodraeth y DU yn ei gyd-drafod â'r UE. Nid yw deddfwriaeth bresennol yr UE ynghylch y cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn ymdrin yn amlwg â'r hyn a fydd yn digwydd os bydd Aelod-wladwriaeth yn gadael yr UE. O ganlyniad, mae'r mater o ran a fydd y rhaglenni'n parhau i fod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth yr UE ar ôl gadael yn dibynnu ar y trafodaethau ymadael a thelerau'r cytundeb tynnu'n ôl neu unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar bob cyfle i fynegi'r pryderon hyn wrth swyddogion cyfatebol yn y DU a bydd yn parhau i wneud hynny.

Cadarnhaodd Llywodraeth y DU ym mis Hydref 2016 y byddai'n gwarantu gwariant i bob un o brosiectau'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a gymeradwyir cyn i'r DU adael yr UE. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i fuddiolwyr o Gymru ynglŷn ag argaeledd cyllid i'r prosiectau hynny. Bydd telerau ac amodau cytundebau ariannu presennol â Gweinidogion Cymru yn parhau'n gymwys nes bod y prosiectau hynny wedi'u cwblhau.

Rydym wedi rhoi gwybod ein bod yn ffafrio cyfnod trosiannol pan fyddai caniatâd i'r cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020 ddod i ben yn naturiol a bod yn destun y trefniadau cau arferol. Byddai hynny'n cynnig eglurder a chysondeb i'n rhanddeiliaid.

Byddai trefniadau cau cynnar yn cyflwyno cymhlethdod ac ansicrwydd mawr i bartneriaid ac rydym wedi'i gwneud yn glir i Lywodraeth y DU pa mor bwysig yw cael eglurder yn gynnar ynghylch unrhyw drefniadau cau o'r fath fel rhan o'r trafodaethau ymadael.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim yn deillio'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad.

**Argymhelliad 3:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am hynt y materion hyn i'n galluogi i asesu'r cyfeiriad a gynigir ar gyfer datblygu dulliau yn y dyfodol i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn perfformiad economaidd yng Nghymru

**Ymateb: Derbyn**

Dadleuir o blaid safbwyntiau a buddiannau Cymru yn barhaus ac yn gyson mewn ystod eang o gyfarfodydd â Gweinidogion a Swyddogion y DU. Mae *Diogelu Dyfodol Cymru* wedi rhoi llwyfan cadarn ac adeiladol inni ar gyfer cyflwyno'n hachos o blaid cyllid parhaus ar sail angen yng Nghymru. Mae *Brexit a Datganoli* yn disgrifio'r trefniadau a fydd yn angenrheidiol rhwng pedair gwlad y DU er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol mewn meysydd lle y rhennir cymhwysedd, fel cymorth rhanbarthol, ar ôl inni adael yr UE. Rydym yn bwriadu cyhoeddi papur ar ddyfodol datblygu economaidd rhanbarthol ar ôl y toriad sy'n nodi ein dull o fynd i'r afael â gwahaniaethau economaidd y tu hwnt i gylch presennol y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Mae adroddiad y Pwyllgor hwn yn dystiolaeth bellach fod consensws yn dod i'r amlwg ledled Cymru, y byddwn yn ceisio adeiladu arno yn yr hydref pan fyddwn yn cyflwyno ein syniadau cychwynnol mewn papur polisi ac yn ymgysylltu â phartneriaid ledled Cymru ynglŷn â threfniadau olynu.

Byddaf yn parhau i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn a'r Cyfarfod Llawn yn rheolaidd ynglŷn â chynnydd y gwaith hwn.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim yn deillio'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad.

**Argymhelliad 4:**

Rydym yn pryderu y gallai un addasiad i'r Grant Bloc, er ei fod yn dderbyniol yn y byrdymor, beri risgiau yn y tymor hwy ac felly argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod arian wedi'i brofi ar gyfer y dyfodol ac yn edrych ar rinweddau fformiwla gwrthrychol sy'n seiliedig ar anghenion, fel y cytunwyd gan bob gwlad yn y DU

**Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

Ein safbwynt cyffredinol yw y dylid dosbarthu cyllid ar sail angen o amgylch y DU. Byddai hyn yn gofyn am ad-drefnu'r system fformiwla Barnett bresennol yn llwyr, fel y mae Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar yr Undeb Ewropeaidd yn ei gynnig. Byddai hyn yn gofyn am setliad newydd a bennwyd drwy drafodaethau.

Yn y cyfamser, rydym yn pwyso am gyllid amnewid llawn yn llinell sylfaen Llywodraeth Cymru, gan greu cynnydd parhaol yn y gyllideb greiddiol flynyddol. Mae fframwaith cyllidol Cymru yn darparu ar gyfer cyllid gwaelodol sy'n cynnig peth amddiffyniad inni. Byddai'r dewis amgen debygol yn gofyn bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn cyflwyno cynnig i gronfa ledled y DU ynghyd â phob gwlad a rhanbarth arall o'r DU, a fyddai â meini prawf dyrannu ac adrodd nas diffiniwyd hyd yma. Credwn nad yw hwnnw'n ddull o fwrw ymlaen a fyddai'n creu budd i Gymru.

**Goblygiadau ariannol** – Bydd natur a lefel y trefniadau i gymryd lle'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn cael effaith fawr ar sefyllfa gyllidebol gyffredinol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhan o drafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 5:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU o ran:

– yr angen i Lywodraeth y DU gyflwyno cynigion ar gyfer strwythur rhynglywodraethol ffurfiol i gytuno ar ddyraniadau cyllido a datrys gwrthdaro sy'n debyg i 'Gyngor y Gweinidogion' y DU; ac

– yr angen am eglurder gan Lywodraeth y DU o ran p'un a yw eu safbwyntiau ar statws cyfreithiol y pwerau ar gyfer polisi rhanbarthol yn cyd-fynd â Llywodraeth Cymru

**Ymateb: Derbyn**

Cafodd ein cynigion ar gyfer strwythurau rhynglywodraethol cryfach eu nodi yn ein papur polisi *Brexit a Datganoli*. Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU, ochr yn ochr â'n swyddogion cyfatebol yn y Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, i weithio gyda ni i ddatblygu'r cynigion hyn. Rydym am sicrhau bod gennym strwythur rhynglywodraethol sy'n addas i'r diben, sy'n parchu datganoli ac sy'n cydnabod bod angen trefniadau sofraniaeth a rennir y tu mewn i'r DU, ond y tu allan i'r UE.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim yn deillio'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad.

**Argymhelliad 6:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phob partner perthnasol i fynegi gweledigaeth glir a phwrpas y polisi rhanbarthol yn y dyfodol sy'n gwneud y gorau o'r cyfle i feddwl o'r newydd ac sy'n ystyried y manteision ac anfanteision wrth lunio strategaeth ddiwydiannol newydd i Gymru ar ôl gadael yr UE

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn cyhoeddi papur polisi yn yr hydref sy'n nodi ein gweledigaeth o ran y polisi rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd hwn yn cyd-fynd â phroses ymgysylltu sy'n gwahodd syniadau newydd ac sy'n canolbwyntio ar ffyrdd y gallwn fynd ati'n well i gyfuno dulliau o ymdrin â datblygu economaidd rhanbarthol â'n Rhaglen Lywodraethu gyfan, fel y nodir yn *Symud Cymru Ymlaen.*

Rhan annatod o'r gwaith hwn fydd ystyried syniadau ynglŷn â datblygu rhanbarthol gyda'r polisi economaidd i Gymru ar ôl Brexit, ad-drefnu llywodraeth leol, a dulliau sy'n seiliedig ar leoedd sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru, fel Tasglu'r Cymoedd, Bargeinion Dinesig a Thwf, polisïau ar dai ac adfywio, a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim yn deillio'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad.

**Argymhelliad 7:**

Rydym yn argymell y dylai unrhyw bolisi yn y dyfodol geisio mesur effaith gan ddefnyddio ystod ehangach o ddangosyddion yn hytrach na dangosyddion economaidd yn unig

**Ymateb: Derbyn**

Bydd angen i ddull integredig o ymdrin â'r polisi rhanbarthol adlewyrchu dealltwriaeth ehangach o'r hyn sy'n bwysig i ranbarthau, cymunedau a dinasyddion ledled Cymru. Byddwn yn adeiladu ar sail y gwaith a wnaed eisoes yng Nghymru i ategu *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*, yn ogystal ag edrych ar yr arferion rhyngwladol gorau.

Mae gennym gyfres eang o ddangosyddion sy'n anelu at fesur cynnydd yn ôl ein Rhaglen Lywodraethu a'r Nodau Llesiant cysylltiedig, ac mae'r rhain yn fan cychwyn cadarn, ond rhaid i ddangosyddion ddeillio o'r canlyniadau penodol yr ydym yn ceisio'u cyflawni.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi cwrdd â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i drafod ystod o dystiolaeth ynglŷn â'r polisi rhanbarthol, gan gynnwys y dull gorau o fesur effaith. Rydym yn archwilio sut y gallwn weithio gyda'r OECD i sicrhau ein bod yn canfod y dangosyddion mwyaf priodol, gan gynnwys y rhai sy'n rhoi cyfle i feincnodi'n rhyngwladol â rhanbarthau cymaradwy.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim yn deillio'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad.

**Argymhelliad 8:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'r adroddiad sut y bydd yn sicrhau gwell symleiddio a hyblygrwydd yn y rheolau sy'n llywodraethu polisi rhanbarthol ar ôl i'r DU adael yr UE. Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ar ba agweddau y byddai'n ceisio eu cadw o'r weithdrefn bresennol.

**Ymateb: Derbyn**

Ein bwriad yw sicrhau bod unrhyw ddull sy'n seiliedig ar reolau o ymdrin â chyllid rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol mor syml a hyblyg ag y bo modd. Nid ydym yn ceisio atgynhyrchu rhaglenni'r UE yng Nghymru a hoffem weld dull mwy integredig o ymdrin â datblygu rhanbarthol. Byddwn yn nodi ein safbwyntiau cychwynnol mewn papur polisi yn yr hydref.

Mae trafodaethau cynnar â phartneriaid a rhanddeiliaid, fel y Grŵp Cynghori ar Ewrop a'r Pwyllgor Monitro Rhaglen ar gyfer y cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, wedi canfod cyfleoedd clir i symleiddio yn ogystal â rhai manteision gwerthfawr a geir yn y gyfundrefn bresennol. Cafodd y rhain eu hadlewyrchu hefyd yn y dystiolaeth a roddodd nifer o randdeiliaid i ymchwiliad y Pwyllgor.

Ymysg y cyfleoedd i symleiddio mae'r posibilrwydd o ymadael â'r drefn o gael llawer o gronfeydd ar wahân y mae pob un ohonynt wedi'i seilio ar wahanol reolau a phrosesau. Dylai hyn greu cyfle i gyd-blethu mwy â buddsoddiadau ehangach gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, Llywodraeth y DU, addysg uwch/bellach, y trydydd sector, a'r sector preifat.

Mae symud y pwyslais oddi wrth gyfyngu buddsoddiadau i wahanol fathau o weithgareddau cymwys, tuag at gyflawni canlyniadau a rennir, yn creu'r posibilrwydd o gael cyfres lawer symlach o reolau sydd wedi'u seilio ar ganlyniadau yn hytrach nag ar gydymffurfio. Dylai'r rheolau ar gydymffurfio fod yn gyson ar draws pob math o gymorth Llywodraeth Cymru pan fo modd, gan osgoi cael gwahanol reolau gan ddibynnu o ble y daw'r cyllid.

Mae cyfleoedd clir hefyd i ddileu'r cyfyngiadau daearyddol presennol, gan ein galluogi i dargedu buddsoddiadau at feysydd economaidd gweithredol yn hytrach nag o fewn ffiniau'r Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth (NUTS2), sef 'Gorllewin Cymru a'r Cymoedd' a 'Dwyrain Cymru'. Byddai hyn yn gymorth pellach o ran integreiddio, oherwydd bydd modd i ddulliau cyflawni rhanbarthol yn y dyfodol gael eu cysoni'n well ag ad-drefnu llywodraeth leol a'r broses o ranbartholi polisïau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys datblygu economaidd, y ddarpariaeth o sgiliau, a thai ac adfywio. Bydd mwy o hyblygrwydd hefyd yn creu mwy o gyfleoedd i weithio ar draws ffiniau gyda Lloegr ac yn rhyngwladol.

O ran elfennau'r dull presennol yr hoffem eu cadw, mae'r rhain yn cynnwys ymrwymiad i raglennu amlflwydd ac i ddull trylwyr o gynnal profion o resymeg a hygrededd rhaglenni a phrosiectau a gyflwynir i'w hariannu. Mae fframwaith monitro a gwerthuso cryf sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sydd wedi'i adeiladu ar sail cronfa dystiolaeth gadarn hefyd yn un o gryfderau allweddol rhaglenni a ariennir gan yr UE. Fodd bynnag, mae cyfleoedd sylweddol i symleiddio'r dull o ymdrin â

dangosyddion er mwyn iddynt fod yn gliriach ynglŷn â’r canlyniadau yr hoffem i fuddsoddiadau eu cyflawni ac osgoi gofynion anghymesur o ran tystiolaeth.

Mae’r dull partneriaeth sydd wrth galon rhaglenni’r UE hefyd yn fantais allweddol yr ydym yn bwriadu ei chadw, ac mae cyfleoedd i gryfhau’r broses o gynnwys y partneriaid hynny yn y gwaith o gynllunio a chyflawni. Gall fod angen datblygu capasiti yn hyn o beth, sydd wedi’i gysoni â’n cynigion ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol a chyflawni mentrau eraill sy’n seiliedig ar leoedd.

**Goblygiadau ariannol –** Nid oes dim yn deillio’n uniongyrchol o’r ymateb a nodir uchod i’r argymhelliad.

**Argymhelliad 9:**

Er mwyn llywio gwaith cynllunio a chyflwyno polisi rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

– gomisiynu gwaith ymchwil arbenigol ar effeithiolrwydd ei pholisïau presennol a chyflwyno cynigion ar gyfer polisïau newydd yn seiliedig ar arfer gorau o bob rhan o'r byd;

– nodi yn ei hymateb i'n hadroddiad sut y bydd yn sicrhau bod pob swyddog perthnasol yn dysgu o arfer gorau rhyngwladol

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r amserlenni a ragwelir ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yn ei hymateb i'r adroddiad

**Ymateb: Derbyn**

Mae gan y cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru eu rhaglen bwrpasol eu hunain o waith ymchwil a gwerthuso a nodir mewn cynlluniau gwerthuso, sydd wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Caiff y cynlluniau hyn eu trafod yn y Pwyllgor Monitro Rhaglen yn rheolaidd, a chânt eu llywio gan Grŵp Cynghori ar Fonitro a Gwerthuso arbenigol sy'n cynnwys arbenigwyr o'r tu mewn i Lywodraeth Cymru a'r tu allan iddi. Mae'r rhaglen ymchwil a gwerthuso hon yn cynnwys dadansoddiadau parhaus o effeithiolrwydd prosiectau unigol, yn ogystal ag o wahanol rannau pob rhaglen. Yn fras, mae ein rhaglen ymchwil a gwerthuso yn cwmpasu'r hyn a ganlyn:

- Rhaid i bob 'gweithrediad' a gynorthwyir gynnal gwerthusiad annibynnol sy'n asesu effeithiolrwydd yr ymyriad penodol yn ôl yr hyn y bwriedir iddo'i gyflawni. Rhaid mynd i'r afael â'r canfyddiadau a'u hystyried ar gyfer unrhyw brosiectau cysylltiedig neu olynol.

- Cynhelir arolygon pwrpasol a dadansoddiadau cysylltiedig ynghylch effeithiolrwydd y gwahanol fathau o gymorth i unigolion a busnesau. Pan fo modd, mae'r rhain yn ymgorffori dadansoddiadau gwrthffeithiol a hydredol.

- Cynhelir gwerthusiadau o raglenni cyfan ar ddiwedd pob rhaglen er mwyn asesu effeithiolrwydd cyffredinol y rhaglenni ac i ddysgu gwersi. Disgwylir y dadansoddiad o raglenni 2007-2013 yn ddiweddarach eleni.

- Cynhelir gwerthusiadau o brosesau i ganfod meysydd lle y gellir gwneud gwelliannau i systemau gweithredu a chanfod yr arferion gorau.

- Comisiynir hefyd waith ymchwil a gwerthusiadau ad-hoc mewn meysydd penodol sydd o ddiddordeb.

Yn ogystal, effeithiolrwydd model yr UE o bolisi rhanbarthol yw un o'r materion polisi sydd wedi'i werthuso fwyaf yn y byd, ac mae cyfoeth o dystiolaeth ar gael ar lefel yr UE a'r DU: mae WEFO wedi chwarae rhan weithgar mewn cyfrannu at arferion da o

ran monitro a gwerthuso ymyriadau o’r fath ledled yr UE, a dysgu ganddynt. Mae’r Comisiwn Ewropeaidd wrthi’n cyhoeddi ystod o astudiaethau gwerthuso i lywio’r drafodaeth ar ddyfodol polisi rhanbarthol yr UE ar ôl 2020. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn rhan o rwydweithiau rhyngwladol sy’n ymgymryd â gwaith ymchwil ac sy’n canfod yr arferion gorau ac yn eu rhannu.

Mae’r OECD wedi ymgymryd ag ystod eang o waith ymchwil ar rôl dulliau gwahanol o ymdrin â pholisi rhanbarthol ar draws ei aelodau, a’r modd y defnyddir y dulliau hynny. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cwrdd â’r OECD i drafod sut y gall yr arferion rhyngwladol gorau gyfrannu at waith datblygu ar bolisi rhanbarthol, a byddwn yn bwrw ymlaen â’r ddeialog hon wrth inni ddatblygu cynigion ymhellach.

Mae amryw o gyfraniadau’n dod i’r amlwg hefyd ynglŷn â’r ddadl hon gan sefydliadau cynrychiadol, sefydliadau syniadau, ac academyddion. Rydym yn asesu’r ystod o waith ymchwil a gwblhawyd eisoes, ein cynlluniau presennol, a rhai ein rhanddeiliaid, er mwyn canfod unrhyw fylchau posibl.

Caiff yr amserlenni ar gyfer gwaith ymchwil sydd wedi’i gynllunio eisoes eu nodi yng nghynlluniau gwerthuso pob rhaglen ac fe’u cyflwynir i’r Pwyllgor Monitro Rhaglen, gan eu diwygio bob blwyddyn.

O ran y polisi rhanbarthol yn y dyfodol, lle y mae’r dystiolaeth yn gymharol wan, rydym yn bwriadu hyrwyddo dull arbrofol o ymdrin â datblygiadau yng nghyswllt polisi rhanbarthol newydd.

**Goblygiadau ariannol –** Nid oes dim yn deillio’n uniongyrchol o’r ymateb a nodir uchod i’r argymhelliad.

**Argymhelliad 10:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso a oes dulliau mwy cadarn ar gyfer casglu a dadansoddi data er mwyn dylunio a gwerthuso polisi rhanbarthol yn y dyfodol a bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag arbenigwyr rhyngwladol, fel yr OECD, er mwyn gwneud hyn

**Ymateb: Derbyn**

Fel y nodir uchod, mae'r UE wedi arwain y ffordd o ran gwerthuso polisïau datblygu rhanbarthol ac mae Cymru wedi chwarae rhan fawr mewn cyfrannu at arferion da o ran gwerthuso ymyriadau Cronfeydd Strwythurol a dysgu ganddynt.

Ar yr un pryd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dechrau deialog â'r OECD i drafod dulliau o ymdrin â datblygu economaidd rhanbarthol yng nghyd-destun arferion da rhyngwladol. Mae rhan o'r drafodaeth hon yn ymwneud â dulliau monitro a gwerthuso, gan gynnwys canfod dangosyddion priodol a chael tystiolaeth ar eu cyfer. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r ddeialog hon.

Hoffem sicrhau bod dull cyson ar draws y Llywodraeth gyfan a gwahanol feysydd polisi, gan gydnabod bod llawer o waith wedi'i wneud i lywio'r dull o gyflwyno gwybodaeth yng nghyswllt y Nodau Llesiant a'r Rhaglen Lywodraethu.

**Argymhelliad 11:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut bydd yn sicrhau bod strwythurau rhanbarthol newydd yng Nghymru yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Ar ben hynny, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ardaloedd gwledig yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yn cael eu cyfrif yn briodol wrth gynllunio a chyflwyno polisi rhanbarthol yn y dyfodol

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn ymgynghori ynglŷn â'r dewisiadau ar gyfer dulliau o ymdrin â datblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod bod strwythurau rhanbarthol ledled Cymru eisoes ac mae cyfle i gydgysylltu dull o weithredu sy'n gallu cyflawni'r polisi ym mhob lle penodol.

Yn arbennig, byddwn yn sicrhau bod ein dull o ymdrin â'r polisi rhanbarthol yn y dyfodol yn adlewyrchu'n fanwl ein dull o ymdrin ag ad-drefnu llywodraeth leol, datblygu economaidd rhanbarthol, sgiliau rhanbarthol, y polisi adfywio, a dulliau sy'n seiliedig ar leoedd, fel Tasglu'r Cymoedd, Bargeinion Dinesig a Thwf, Ardaloedd Menter, Ardaloedd Twf Lleol, a grwpiau partneriaeth eraill.

Rydym hefyd yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod ardaloedd gwledig yn rhan allweddol o'r dull integredig hwn sy'n seiliedig ar leoedd. Er mwyn i hyn lwyddo, bydd angen inni sicrhau y rhoddir pwyslais digonol ar flaenoriaethau gwledig yn nyluniad y polisi rhanbarthol, gan gynnwys y cysylltiadau rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Bydd hyn yn gofyn am gynnwys canlyniadau a dangosyddion priodol, yn ogystal â sicrhau bod dulliau partneriaeth yn gynrychiadol i raddau priodol.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim yn deillio'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad.

**Argymhelliad 12:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa newidiadau strwythurol allai fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i sicrhau bod y strwythurau sydd ar waith i gyflawni polisi rhanbarthol yn addas at y diben ar ôl i'r DU adael yr UE

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn y gall fod angen newidiadau strwythurol er mwyn cyflawni polisi rhanbarthol a adnewyddwyd, yn arbennig os bydd partneriaethau rhanbarthol â rhan fwy i'w chwarae yn y gwaith o gynllunio a chyflawni. Rydym yn llawn sylweddoli pwysigrwydd sicrhau bod y trefniadau sefydliadol cywir ar waith, wedi'u hategu gan lywodraethu cadarn a chapasiti priodol.

Byddwn yn gweithio gyda phob un o'r rhanbarthau i asesu'r capasiti a'r gallu presennol, ac i'w datblygu ar gyfer y dyfodol. Dylai'r dull gweithredu hwn alluogi pob rhanbarth i deilwra cynlluniau buddsoddi yn ôl ei anghenion a'i gyfleoedd, tra bo buddsoddiadau cenedlaethol a thrawsffiniol yn cael eu cydategu. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno fframwaith strategol ar gyfer y dull hwn a fydd yn galluogi pawb sydd â rhan i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau a rennir ar gyfer Cymru gyfan.

Byddwn yn gwneud hyn ar draws y Llywodraeth gyfan, fel bod ein dull o feithrin capasiti rhanbarthol yn gallu ategu nid yn unig y polisi rhanbarthol yn y dyfodol, ond pob polisi a fframwaith cynllunio perthnasol.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim yn deillio'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad.

**Argymhelliad 13:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadw goruchwyliaeth strategol ac yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer polisi rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru tra'n sicrhau bod polisi yn y dyfodol yn ymatebol i anghenion lleol a bod y cyfrifoldeb dros gyflwyno wedi'i amlinellu'n glir

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn cytuno mai Llywodraeth Cymru sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu cyfeiriad strategol ac i gadw'r oruchwyliaeth ar y polisi rhanbarthol yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn cydnabod cryfderau'r bartneriaeth bresennol â'r UE, a byddwn yn ymchwilio i amryw o ddewisiadau o ran dirprwyo'r cyfrifoldeb am gyflawni i'r lefel fwyaf priodol. Mae gwersi i'w dysgu gan y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd yng nghyswllt rhaglenni ar wahân yr UE: o ddull gweithredu LEADER ar gyfer datblygu lleol a arweinir gan y gymuned yn y Rhaglen Datblygu Gwledig, i'r broses flaenoriaethu ranbarthol mewn Cronfeydd Strwythurol a'r gwaith o sicrhau bod ymyriadau cenedlaethol yn addas i ranbarthau a materion gwledig.

Mae dadl i'w chynnal ynghylch y lefel ymyrryd sydd fwyaf priodol ar gyfer gwahanol fathau o fuddsoddiadau. Bydd rhai meysydd o hyd y bydd dull gweithredu Cymru gyfan fwyaf priodol iddynt, fel yn achos prentisiaethau, gan ystyried hefyd sut y gallant fod yn fwy perthnasol yn rhanbarthol ac yn lleol. Lefel ranbarthol neu leol sydd orau er mwyn cynllunio a chyflawni mewn meysydd ymyrryd eraill; gan ddefnyddio arbenigedd a gwybodaeth lleol i lywio dulliau buddsoddi yn well.

Byddwn yn ymgynghori ynglŷn â'r materion hyn yn ddiweddarach eleni er mwyn llywio dull cyflawni sy'n nodi'n glir ymhle y mae'r cyfrifoldebau am benderfyniadau i'w cael, ac sy'n sicrhau bod y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud ar y lefel fwyaf priodol.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim yn deillio'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad.

**Argymhelliad 14:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pennu sut mae'n bwriadu, yn ogystal â'r strategaethau sydd eisoes ar waith, gweithio gyda'r sector preifat i hybu gwariant ar ymchwil a datblygu yng Nghymru i sicrhau bod enillion arloesedd a chynhyrchiant yn ganolog i bolisi datblygu rhanbarthol ac economaidd yn y dyfodol

**Ymateb: Derbyn**

Bydd codi lefelau cynhyrchiant yng Nghymru yn bwysicach fyth ar ôl inni adael yr UE. Mae angen inni sicrhau, yn ogystal â buddsoddi yn sylfeini ein heconomi, y byddwn yn gweithio i barhau i wella lefelau sgiliau a dwysáu gwaith yng nghyswllt ymchwil a datblygu yng Nghymru. Bydd buddsoddi mewn ffactorau y gwyddys y byddant yn helpu i wella cynhyrchiant, a hyrwyddo twf cwmnïau brodorol Cymreig, yn elfennau creiddiol o'r dull strategol y byddwn yn ei bennu ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn parhau i gryfhau prosesau cydweithredu rhwng byd llywodraeth, prifysgolion, a byd busnes er mwyn adeiladu ar sail rhagoriaeth ymchwil sy'n gallu arwain at ddiwydiannau Cymreig newydd a chreu swyddi â sgiliau lefel uchel, e.e. datblygu technoleg lled-ddargludyddion cyfansawdd yn y De-ddwyrain. Yn "*Diogelu Dyfodol Cymru*", rydym yn dadlau'n gryf o blaid parhau i gymryd rhan yn rhaglen Horizon 2020 yr UE ar ôl i'r DU ymadael ag aelodaeth o'r UE. Y parhad hwn yw'r ffordd orau bosibl o gynnal arloesedd sydd gyda'r gorau yn y byd ac o wella buddsoddiadau ymchwil a datblygu domestig mewn cydweithrediad â'r sector preifat; a byddwn yn parhau i ddadlau'n frwd o blaid hynny.

Mae cyfleoedd mawr hefyd i gynorthwyo gwaith o sicrhau bod arloesedd yn cael ei fabwysiadu a'i ledaenu i raddau mwy ar draws yr economi, a hynny er mwyn helpu i gau bylchau cynhyrchiant rhwng cwmnïau blaenllaw a'r gweddill, gan godi lefelau cynhyrchiant cyffredinol yn yr economi.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim yn deillio'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad.

**Argymhelliad 15:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'r adroddiad sut y bydd yn datblygu strategaeth arloesi ac ymgysylltu yng Nghymru ar ôl i'r DU adael yr UE

**Ymateb: Derbyn**

Wrth inni adael yr UE, bydd angen inni gryfhau arloesedd a gwaith ymgysylltu ar draws addysg uwch a byd diwydiant. Mae ymgynghoriad Papur Gwyn ynglŷn â rôl Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd a'i swyddogaethau, sy'n cynnwys ymchwil ac arloesedd, ar agor tan 23 Hydref 2017. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn llywio ymgynghoriad technegol pellach yn y gwanwyn yn 2018. Bydd yr ymgynghoriad technegol yn gyson ag ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond, a gydnabu bwysigrwydd trosglwyddo gwybodaeth a sicrhau bod cyllid deuol ar gael.

Nodwn eto mai ein nod o ran polisi yw i'r Deyrnas Unedig barhau i gymryd rhan yn rhaglen Horizon 2020 yr UE ar ôl inni ymadael ag aelodaeth o'r UE. Mae digonedd o gynsail i'r dull hwn o weithredu, a'n barn glir yw bod hynny'n ddull sylfaenol fanteisiol o ymdrin ag arloesedd.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim yn deillio'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad.

### Argymhelliad 16:

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, i nodi'r canlyniad a ffefrir ganddi ar gyfer rheolau cymorth gwladwriaethol a chaffael ar ôl i'r DU adael yr UE

**Ymateb: Derbyn**

Diben rheolau cymorth gwladwriaethol yw osgoi gwyrdroadau dinistriol i'r farchnad. Mae *Diogelu Dyfodol Cymru* yn cyflwyno'n safbwynt yn hyn o beth. Y mater pennaf i Gymru yw sicrhau mynediad llawn a dirwystr at Farchnad Sengl yr UE. Mae'n debyg y bydd hyn yn golygu bod rhaid i'r DU fabwysiadu fframwaith cymorth gwladwriaethol sy'n debyg i un yr UE: mae blaenoriaethau cyd-drafod yr UE yn dangos y bydd hynny'n ofyniad mewn unrhyw gytundeb masnach.

Yn amlwg, os bydd y DU yn penderfynu dod yn rhan o Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA), er enghraifft, fel rhan o drefniadau pontio, byddai angen i'r rheolau gael eu copïo'n gyfan gwbl, wrth i Awdurdod Gwyliadwriaeth a Llys EFTA gamu i rolau'r Comisiwn a Llys Cyfiawnder Ewrop. O dan y trefniadau hyn, byddai angen hefyd i'r DU weithredu unrhyw newidiadau i'r rheolau yn y dyfodol.

Os cytunir ar gytundeb wedi'i deilwra, gall fod modd gwyro, mewn ffyrdd cyfyngedig, o reolau gwladwriaethol yr UE wrth sefydlu fframwaith cymorth gwladwriaethol i'r DU. Os bydd y DU yn gallu llunio'i fframwaith cymorth gwladwriaethol ei hun, bydd yn hollbwysig bod llawer iawn o dryloywder ynglŷn ag unrhyw gymorthdaliadau a ddarperir. Bydd unrhyw drefniant o'r fath yn gofyn am gydgysylltu a chydweithredu cryf rhwng llywodraethau, yn debyg i'r hyn a nodir yn ein dogfen *Brexit a Datganoli.*

O dan statws presennol ardal a gynorthwyir, caniateir i ni (a'r UE) roi cymorth wedi'i dargedu mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru. Heb y statws hwn, ni fyddai ymyriadau o'r fath yn cael caniatâd o dan reolau cystadleuaeth. Mae angen i unrhyw newidiadau, ar ôl gadael yr UE, i'n dull o ymdrin â chymorth rhanbarthol yn y DU:

- gael eu cyd-drafod a'u cytuno ar draws y DU er mwyn osgoi cystadleuaeth rhyngranbarthol dinistriol a sicrhau marchnad sy'n gweithredu'n dda; a
- chyd-fynd mor agos ag y bo modd â rheolau'r UE er mwyn osgoi creu unrhyw rwystrau a fyddai'n lleihau mynediad masnach rhwng y DU a'r UE.

Fel yn achos cymorth gwladwriaethol, nid yw'n glir ar hyn o bryd pa effaith y bydd gadael yr UE yn ei chael ar reolau caffael cyhoeddus. Os bydd y cytundeb ar ymadawiad y DU yn cynnwys cadw mynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl, gallai hyn olygu y byddai cyfundrefn gaffael bresennol yr UE yn dal i fod yn gymwys i gontractau sector cyhoeddus Cymru. Os bydd telerau ymadawiad y DU yn golygu nad oes rhaid i'r DU gydymffurfio â chyfundrefn caffael cyhoeddus yr UE neu rywbeth uniongyrchol gyfatebol, gallai hynny roi hyblygrwydd i adolygu'r rheolau. Hyd yn oed yn y senario hon, byddai angen rheolau i reoli caffael cyhoeddus o hyd –

a byddai rheolau o’r fath yn gofyn am gydgysylltu a goruchwyliaeth rhynglywodraethol effeithiol gan bedair gwlad y DU. Yn y lle cyntaf, mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod yn bwriadu rhewi’r ddeddfwriaeth bresennol ar yr adeg y gadewir yr UE, gan wneud mân addasiadau er mwyn mynd i’r afael ag unrhyw agweddau a all ddod yn gyfreithiol anweithredol (e.e. yr angen i hysbysebu caffaeliadau cyhoeddus yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd). Os na fydd cyfundrefn gaffael yr UE yn gymwys mwyach, gall fod cyfle i symleiddio’r rheolau caffael i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ehangach yn lle’r broses, ac i ganfod cyfleoedd i gynyddu ymhellach y fantais economaidd a geir o wariant trydydd parti.

**Goblygiadau ariannol –** Nid oes dim yn deillio’n uniongyrchol o’r ymateb a nodir uchod i’r argymhelliad.

**Argymhelliad 17:**

Rydym yn argymell y dylai polisi rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol gynnwys:

- cefnogaeth barhaus ar gyfer addysg, sgiliau a chyfalaf dynol;
- cefnogaeth barhaus ar gyfer buddsoddiad mewn seilwaith ffisegol a digidol;
- gwell cydweithio rhwng awdurdodau lleol; addysg bellach ac uwch; byrddau iechyd lleol; y sector preifat a'r trydydd sector;
- ymgysylltiad parhaus â'r sector preifat lle y bo'n bosibl; a
- dull mwy strategol o wneud y gorau o botensial caffael wrth ysgogi datblygiad economaidd

**Ymateb: Derbyn**

Bydd ein safbwynt cychwynnol ynglŷn â'r dull o ymdrin â'r polisi rhanbarthol yn y dyfodol wedi'i nodi yn ein papur polisi. Bydd hwn yn rhoi cyfle i gael safbwyntiau mwy manwl gan ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys y sector preifat.

Mae consenswsi eang i raddau helaeth eisoes ynglŷn â'r meysydd i'w blaenoriaethu o ran polisi rhanbarthol y dyfodol, sy'n cynnwys y mathau o fuddsoddiadau a nodir uchod, y cydnabyddir bod pob un ohonynt yn bwysig ar gyfer ategu gwelliannau i gynhyrchiant.

Gallai dull newydd o ymdrin â'r polisi rhanbarthol, sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cyflawni, hefyd greu mwy o hyblygrwydd ynglŷn â'r mathau o weithgareddau sy'n cael eu hariannu. Dylai hyn, yn ei dro, annog dulliau gweithredu mwy arloesol – naill ai drwy beidio â cheisio barnu o flaen llaw ynghylch y datrysiad i heriau penodol, neu drwy fanteisio ar gyfleoedd penodol.

Rydym wedi ymrwymo i gryfhau'r dull partneriaeth sydd wedi datblygu dros gyfnod rhaglenni buddsoddi rhanbarthol olynol sydd wedi'u hariannu gan yr UE, sef dull sydd eisoes yn gryf. Bydd cyfleoedd i ehangu a dyfnhau'r cydweithrediad hwn yn y dyfodol drwy gyfuno a chydgysylltu'n well â meysydd polisi gwahanol.

Dylai cyfres lai weinyddol gymhleth o drefniadau, a phroses o symud yn nes at ganolbwyntio ar ganlyniadau, hefyd helpu i annog y sector preifat i chwarae mwy o ran yn y gwaith o gynllunio a chyflawni.

Yn amodol ar yr ystyriaethau a amlinellir yn yr ymateb i Argymhelliad 16 uchod, gall fod modd datblygu dull mwy strategol a hyblyg o ymdrin â chaffael, a byddwn yn ceisio defnyddio unrhyw bosibilrwydd o'r fath i uchafu'r fantais sy'n gysylltiedig â chaffael cyhoeddus o safbwynt datblygu economaidd.

**Goblygiadau ariannol** – Nid oes dim yn deillio'n uniongyrchol o'r ymateb a nodir uchod i'r argymhelliad.